YSGOL BRYNREFAIL

Y THOMAS TELFORD NEWYDD?

Newyddion o Adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Brynrefail



Sion Williams(8I) Jordan Eade(8E) Hannah Owen(8E) – Gangstars Cymru

Yn dilyn uned o waith ar Adeiladau , roedd rhaid i'r disgyblion, yn eu grwpiau o dri, ddylunio pont hytrawst er mwyn darganfod y gymhareb cryfder i bwysau orau posibl. Ar ôl ei ddylunio, dyma nhw yn adeiladu un ochr y bont allan o bren, ac yna mewn un wers cyffroes buont yn eu profi drwy osod pwysau ar fachyn oedd yn cael ei gynnal gan yr hytrawst pren.

Cafwyd rhai pontydd arbennig o gryf a chadarn, ac eraill ddim cweit cystal !

Y buddugwyr o ddosbarthiadau o ddosbarthiadau 8ON3 oedd Catrin Jones, Shannon Owen ac Osian Worth a oedd yn mynd dan yr enw Maltesers. Roedd eu pont yn pwyso 11.59g ac mi lwyddodd i ddal 18kg cyn torri. Rhoddwyd hyn gymhareb o bwysau i gryfder o 1553.



Catrin Jones(8N) Shannon Owen (8O) Osian Worth (8E) - Maltesers

Y buddugwyr o ddosbarthiadau 8SEI3 oedd Sion Williams, Jordan Eade a Hannah Owen, a oedd yn mynd dan yr enw 'Gangstars Cymru' . Roedd eu pont yn pwyso 19.60g ac mi lwyddodd i ddal 38.4kg cyn torri. Rhoddwyd hyn gymhareb pwysau i gryfder o 2065.

Mae yna dal dipyn o waith gan bawb i geisio dal yr un gorau erioed, sef pont Grwp Menyn, Chris Pitts, Rhys Jones a Ffion Thomas a lwyddodd yn Hydref 2009 I adeiladu pont a bwysodd 15.82g ac a lwyddodd i ddal cyfanswm anhygoel o 49.9kg. rhoddwyd hyn gymhareb bwysau o 3154.